Paratowyd y ddogfen hon gan gyfreithwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn rhoi gwybodaeth a chyngor i Aelodau Cynulliad a'u cynorthwywyr ynghylch materion dan ystyriaeth gan y Cynulliad a'i bwyllgorau ac nid at unrhyw ddiben arall. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a'r cyngor a gynhwysir ynddi yn gywir, ond ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw ddibyniaeth a roddir arnynt gan drydydd partïon.

This document has been prepared by National Assembly for Wales lawyers in order to provide information and advice to Assembly Members and their staff in relation to matters under consideration by the Assembly and its committees and for no other purpose. Every effort has been made to ensure that the information and advice contained in it are accurate, but no responsibility is accepted for any reliance placed on them by third parties

## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Y Cod Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

## Cefndir

1. Ar 20 Hydref 2009, ysgrifennodd y Cwnsler Cyffredinol at Gadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ("y Pwyllgor") gan amgáu copi o God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer Is-ddeddfwriaeth, a wnaed o dan adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Dilynwyd hyn dri niwrnod yn ddiweddarach gan gopi o ganllawiau atodol ynghylch y Cod ar gyfer staff. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am gyngor ynghylch y Cod, ac yn benodol am gymhariaeth â dogfennau tebyg a gyhoeddir gan weinyddiaethau datganoledig eraill.

2. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi canllawiau cryno iawn ynghylch y prosesau ychwanegol sy'n rhaid eu dilyn yn yr Alban ("Scottish extras"), gan gyfeirio'n gyffredinol at ganllawiau Swyddfa'r Cabinet: h

ttp://www.scotland.gov.uk/Topics/Business-Industry/support/better-regulation/guidance/RIA-guidance/

Nid yw'n hawdd cael gafael ar ganllawiau Swyddfa'r Cabinet. Mae Llywodraeth yr Alban hefyd wedi cyhoeddi rhestr wirio ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith Rheoleiddiol yn yr Alban: h

ttp://www.scotland.gov.uk/Resource/Doc/917/0043719.pdf

3. Mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi cyhoeddi canllaw cynhwysfawr iawn, sef "Better Policy Making & Regulatory Impact Assessment: A Guide For Northern Ireland : h

ttp://www.detini.gov.uk/better_policy.pdf

**Cynnwys**

4. Mae'r ffaith bod gan y tair gweinyddiaeth ddatganoledig ganllawiau gwahanol iawn yn golygu ei bod yn anodd eu cymharu. Mae'r dull yng Nghymru wedi arwain at god pum tudalen ynghyd ag 16 tudalen o ganllawiau atodol. Mae'r Albanwyr yn defnyddio canllawiau Swyddfa'r Cabinet, sy'n anodd cael gafael arnynt, ynghyd â dwy dudalen o ganllawiau a rhestr wirio tair tudalen o hyd. Mae canllaw Gogledd Iwerddon yn 56 tudalen, sy'n llawn manylion. Felly, tra bo hwnnw'n fwy cynhwysfawr na'r lleill, oherwydd ei hyd, gellir dweud ei fod yn llai hwylus i'w ddefnyddio na'r canllawiau mwy cryno a ddarperir gan y gweinyddiaethau eraill.

5. Mae gan God Cymru un rhinwedd amlwg o'i gymharu â'r rhai eraill. Mae'n nodi gofynion statudol perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ogystal â gofyniad Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol. Ni cheir gwybodaeth o'r fath yn y codau eraill.

6. Mae Adran 4 o God Cymru yn nodi'n glir pam fod angen cynnal arfarniad, a'r amgylchiadau pan fydd angen gwneud hynny. Cyfeirir at y naill beth a'r llall yng Nghanllaw Gogledd Iwerddon, ond dim ond cyfeirio at y rheswm dros gynnal arfarniad y mae canllawiau'r Alban.

7. Mae Adran 5 o God Cymru yn nodi'r cyd-destun statudol ar gyfer ymgynghori, ond mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd yn canolbwyntio ar sut y dylid disgrifio'r ymgynghoriad yn y Memorandwm Esboniadol. Mae Canllaw Gogledd Iwerddon yn ymdrin yn fanylach â sut y dylid cynnal ymgynghoriad.

8. Mae Adran 6 o God Cymru yn ymdrin â diwygio ac ail-lunio. Ni chaiff y materion hyn sylw yn y dogfennau eraill. Mae Adran 7 yn cyfeirio'n fyr at yr ymgynghori a aeth rhagddo wrth baratoi'r Cod. Nid yw'r naill na'r llall o'r dogfennau eraill yn rhoi sylw i hyn.

9. Y materion sy'n cael sylw yng nghanllawiau'r Alban, ond nid yng nghod a chanllawiau Cymru, yw "Micro Business Test" a "Legal Aid Impact Test" a "Test Run of business forms".

10. Mae canllawiau Gogledd Iwerddon yn hwy o lawer na'r dogfennau eraill, ac mae'n anochel fod ynddynt fwy o fanylion. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos eu bod yn ymdrin ag unrhyw faterion ychwanegol.

**Casgliad**

11. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod y materion y cyfeirir atynt uchod. Gellid gofyn i swyddogion y Cwnsler Cyffredinol am bapur sy'n egluro'r weithdrefn a fabwysiadwyd wrth baratoi'r Cod a'r canllawiau sy'n cyd-fynd. Gellid gofyn iddynt hefyd egluro pam nad ydynt yn cynnwys y manylion a geir yng nghanllawiau Gogledd Iwerddon, neu pam nad ydynt yn croesgyfeirio at ganllawiau Swyddfa'r Cabinet, fel y gwna canllawiau'r Alban.

12. Efallai y bydd y Pwyllgor yn awyddus i glywed sylwadau'r Cwnsler Cyffredinol am y materion sy'n cael sylw ganddo yn ei ymchwiliad. Gellid codi unrhyw faterion eraill sy'n ymwneud â'r Cod yn y cyfarfod hwnnw.

**Y Gwasanaethau Cyfreithiol**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tachwedd 2009**